CYNGOR CYMUNED LLANENGAN

Clerc – Einir Wyn – *Clerk*
Fferm Cae Du, Aber-soch, PWLLHELI, Gwynedd. LL53 7HT
Ffôn: (01758) 712434
E-bost: clerc@cyngorcymunedllanengan.cymru
Gwefan: www.cyngorcymunedllanengan.cymru

Tachwedd 5ed, 2020

Annwyl Aelod,

Gwysir chi fod yn bresennol yng nghyfarfod misol y Cyngor **nos Fercher, Tachwedd 11eg, 2020** yng Nghanolfan Llanengan am saith o'r gloch.

RHAGLEN

1. Croeso ac Ymddiheuriadau
2. Datgan Buddiant Personol
3. Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc)
4. Cadarnhau Cofnodion – Hydref 14eg, 2020
5. Ceisiadau Cynllunio (gweler rhestr drosodd)
6. **Materion yn Codi o'r Cofnodion:**
   i) 12. Ysgol Aber-soch
   ii) 13. Gwefan y Cyngor – Cydymffurfio â Rheolau Newydd
   iii) 16. Gohebiaeth: Cyngor Cymuned Llanllyfni – Yr Wyddfa
   iv) 16. Gohebiaeth: O Ddrws i Ddrws – Cyfraniad at y Gwasanaeth Cludo i'r Feddygfa/ Ysbyty Bryn Beryl
   v) 16. Gohebiaeth: Cyngor Cymuned Aberdaron – Meddygfa Rhydbach
7. **Mynwent** – Yr Hen Fynwent; Arwydd Ysbwriel
8. **Materion Cyllidol** – Cytundeb Trydan y Toiledau; Mainc Cae Chwarae Mynytho; Meinciau Solar; Cyllideb 2021 – 2022 (gweler copi); Llif Arian; Asesiad Risg ac Arbrawf Rheolaeth Ariannol Fewnol 2020 – 2021; Archwiliad Ariannol 2019 – 2020
9. **Materion Cynllunio** – Trafferthion Dilyn a Darganfod; Llythyr a Datganiad Cyngor Tref Nefyn ar Ail Gartrefi; Ymgynghoriad Cyhoeddus Canllawiau Cynllunio Atodol – Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid a Newid Defnydd Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol, Safleoedd Cyflogaeth ac Unedau Mân-werthu
10. **Materion Priffyrdd a Bwrdeistrefol** – Hen Arwyddbyst Sarn Bach
11. **Materion Hawliau Tramwy** – Torri'r Llwybrau
12. **Traethau –** Jetskis; Toiled Eco (gweler Atodiad)
13. Ciosg BT Stryd Fawr, Aber-soch – Diffribiliwr
14. Arwyddbyst Pren (gweler Atodiad)
15. Sedd Wag Ward Aber-soch

16. Cynnig Cyng. Erfyl W. Roberts
17. **Gohebiaeth**:
    a) Cydlynydd Partneriaeth Natur Gwynedd – Tir Mynytho
    b) Prosiect Eden – Ymateb Gweithredu Cymunedol
19. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau
18. Dyddiad y Cyfarfod nesaf – nos Fercher, Rhagfyr 9fed, 2020

Yn gywir,

Einir Wyn

EINIR WYN
Clerc

Amg.

CEISIADAU I'W TRAFOD YNG NGHYFARFOD MIS TACHWEDD 2020

RHIF	RHIF Y CAIS	DISGRIFIAD
1	C20/0833/39/LL	Dymchwel modurdy presennol a chodi adeilad newydd i gynnwys dwy ystafell wely ychwanegol i'w gosod – **Hafod, Lôn Gwydryn, Aber-soch**
2	C20/0835/39/AC	Cais i ddiddymu Amod 3 o Ganiatâd Cynllunio 36/64/371'C' ar gyfer safle carafanau er caniatáu defnyddio carafanau trwy gydol y flwyddyn – **Glyn Caravan Park, Lôn Garmon, Aber-soch**
3	C20/0849/39/DT	Estyniad gromen ac adnewyddu'r balconi – **83 Cae Du, Aber-soch**
4	C20/0872/39/DT	Codi modurdy ar wahân – **Corner House, Lôn Golff, Aber-soch**
5	C20/0880/39/DT	Estyniad ochr ac addasiadau – **71 Cae Du, Aber-soch**
6	C20/0883/39/DT	Estyniad llawr cyntaf – **Bwthyn y Ffesant, 14 Stád Sant Tudwal, Mynytho**
7	C20/0895/39/LL	Dymchwel modurdai presennol a chodi sied storio newydd – **Iard Creigir Wen, Lôn Engan, Aber-soch**
8	C20/0896/39/DT	Codi estyniad ochr deulawr a phorth – **274 Cae Du, Aber-soch**